Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Adolygiad o'r defnydd o arfau tanio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur X (XX/XX)** |
| **Noddwyd y papur gan:** | **Ceri Davies** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | **Chris Tucker a Michelle van-Velzen** |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r bwrdd gytuno ar y datganiad sefyllfa ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn cwblhau'r adolygiad. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Sylwer – mae'n bosib nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br><br>**Edrych ar y <u>tymor hir</u>:**<br>Mae'r adolygiad wedi llywio safbwynt Cyfoeth Naturiol Cymru ar yr amgylchiadau lle y byddwn yn defnyddio arfau tanio i gyflawni canlyniadau rheoli tir cadarnhaol ar gyfer y tir yn ein gofal. Mae argymhellion yr adolygiad yn seiliedig ar dystiolaeth a aseswyd yn erbyn diben Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ddeddfwriaeth sy'n cyfeirio ein gwaith.<br><br>**Gweithredu mewn ffordd <u>integredig</u>:**<br>Mae'r adolygiad wedi ystyried sut mae defnyddio arfau tanio yn gyson â diben Cyfoeth Naturiol Cymru ac egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae gweithgareddau sy'n dod dan yr adolygiad wedi cael eu hasesu am eu cyfraniad (cadarnhaol a negyddol) i economi, amgylchedd, cymdeithas a diwylliant Cymru.<br><br>**Cynnwys <u>amrywiaeth</u> o'r boblogaeth:**<br>Roedd yr adolygiad yn cynnwys galw gan y cyhoedd am |

| | |
|---|---|
| | dystiolaeth ac ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar gynigion sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio ein sefyllfa.<br><br>**Gweithio mewn ffordd <u>gydweithredol</u>:**<br>Yn gyson â Strategaeth Rhanddeiliaid Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r adolygiad wedi cynnwys staff, partneriaid a'r rhai sydd â diddordeb i helpu i ddatblygu ein sail dystiolaeth a llywio ein hargymhellion. Roedd yr adolygiad yn seiliedig ar ddull cynhwysol i gasglu tystiolaeth gydag ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar ein cynigion.<br><br>**<u>Atal</u> problemau rhag codi:**<br>Cymhwysodd yr adolygiad y dystiolaeth a oedd ar gael i'r amgylchiadau lle defnyddir arfau tanio ar yr ystâd a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac ystyriodd effeithiolrwydd yr opsiynau sydd ar gael i fodloni ein diben, cyflawni amcanion rheoli tir a diogelu gwerth yr asedau rydym yn eu rheoli, ac wrth i ni ystyried cynigion gan drydydd partïon am weithgareddau megis rheoli plâu, prydlesi ar gyfer saethu anifeiliaid hela, ac at ddibenion hamdden. |

## Mater

1. Mae'r Adolygiad o Ddefnyddio Arfau Tanio ar Dir a Reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (yr Adolygiad) wedi cael ei gwblhau a gofynnir i'r bwrdd ystyried ei argymhellion a chytuno ar ddatganiad sefyllfa ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Cefndir

2. Ym mis Mai 2016, dywedodd y bwrdd y dylai adolygiad ffurfiol gael ei gynnal o ran defnydd arfau tanio ar dir rydym yn ei reoli mewn ymateb i gyflwyno deddfwriaeth newydd[1] yng Nghymru ac yn dilyn pryderon gan randdeiliaid ynghylch llesiant ffesantod ar ein tir a moeseg caniatáu gweithgaredd o'r fath ar dir y mae Gweinidogion Cymru'n berchen arno.

3. Roedd cwmpas yr adolygiad yn gyfyngedig i ddefnyddio arfau tanio a gweithgareddau saethu sy'n ymwneud â rôl a chylch gorchwyl ein rheolwr tir fel a ganlyn:

- Ein defnydd o arfau tanio i reoli rhywogaethau gwyllt sy'n effeithio ar ein hamcanion rheoli tir
- Defnydd pobl eraill o arfau tanio i reoli rhywogaethau gwyllt sy'n effeithio ar amcanion rheoli tir ein cymdogion
- Ein bod ni'n prydlesu ein tir ar gyfer saethu anifeiliaid hela a gweithgareddau eraill sy'n defnyddio arfau tanio

4. Gosodwyd y cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad gan y bwrdd ac roedd yn gofyn am ystyried ac asesu'r graddau yr oedd dulliau presennol a phosib yn gyson â'r canlynol:

- Diben Cyfoeth Naturiol Cymru

[1] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Egwyddorion ac amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Cefnogi cyflwyno nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

5. Ymgymerwyd â'r adolygiad mewn sawl cam fel a nodir yn **Atodiad 1**. Roedd hyn yn cynnwys galw cyhoeddus am dystiolaeth, sicrwydd allanol annibynnol o ddull y prosiect a dadansoddiad o'r dystiolaeth, ac ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfres o gynigion. Darperir crynodeb gweithredol o'r dystiolaeth wedi'i chyfuno yn **Atodiad 2** a cheir crynodeb o'r ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn **Atodiad 3**. Mae'r adolygiad wedi cael ei oruchwylio gan grŵp llywio o staff a grŵp gorchwyl a gorffen bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda phapurau diweddaru'n cael eu darparu i gyfarwyddwyr gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru, bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru ar adegau rheolaidd (**Atodiad 1**).

6. Yn dilyn dadansoddiad o'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r papur hwn yn cyflwyno argymhellion terfynol ar sail tystiolaeth yr adolygiad ac yn gofyn i'r bwrdd gytuno ar ddatganiad sefyllfa ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r rhesymeg ar gyfer pob argymhelliad yn gryno iawn oherwydd darperir gwybodaeth gynhwysfawr mewn adroddiadau eraill sy'n trafod yr amrywiaeth o dystiolaeth sydd ar gael a manteision ac anfanteision opsiynau gwahanol.

**<u>Asesiad</u>**

7. Ym mis Chwefror 2017, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru alwad gyhoeddus am dystiolaeth i lywio'r adolygiad. Roedd hon yn agored am dri mis a chyflwynwyd 36 o ymatebion. Roedd y rhain yn amrywio o ddatganiadau barn byr i bapurau a oedd yn cyfeirnodi cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid. Gwnaeth yr alwad am dystiolaeth nodi'r meini prawf ar gyfer tystiolaeth gymhwysol ac esbonio na fyddai cyhoeddiadau poblogaidd, canfyddiadau storïol, barn a syniadau'n cael eu derbyn. Derbyniwyd dros 220 o ddarnau o dystiolaeth gymwys. Ynghyd â thystiolaeth a gasglwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac o'n cofnodion ein hunain, ystyriwyd mwy na 250 o ddarnau o dystiolaeth.

8. Gwnaeth y prosiect ddod o hyd i ddeddfwriaeth berthnasol, adroddiadau mewnol, cyngor a thystiolaeth, sefyllfa sefydliadau rheoli tir eraill a thystiolaeth annibynnol i lywio'r adolygiad. Ym mis Awst 2017, adolygodd panel arbenigol yn cynnwys 19 o arbenigwyr Cyfoeth Naturiol Cymru asesiad y prosiect o'r dystiolaeth a'i ganfyddiadau drafft. Gwnaeth y panel gwrdd i ystyried sut i gymhwyso'r dystiolaeth i ddefnyddio arfau tanio ar dir dan ein gofal. Defnyddiwyd y dystiolaeth a oedd ar gael i brofi'r dull presennol a'r dewisiadau amgen yn erbyn pob un o'r tair sefyllfa lle defnyddir arfau tanio yn unol â chyd-destun yr adolygiad.

9. Yn dilyn sicrwydd annibynnol allanol o'n proses adolygu a'n dull asesu, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus deuddeg wythnos o hyd rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2018. Derbyniwyd cyfanswm o 4,698 o ymatebion ar-lein a dau ymateb drwy'r post gan amrywiaeth o bartïon â diddordeb. Cyflwynwyd 13 o ymatebion ysgrifenedig ar ran sefydliadau amrywiol. Defnyddiodd dîm y prosiect offeryn arolwg i ddadansoddi'r ymatebion ar-lein a darllenwyd, aseswyd, categoreiddiwyd a chrynhowyd yr holl ymatebion ysgrifenedig a'r sylwadau a dderbyniwyd ar-lein. Dywedodd chwarter o ymatebwyr eu bod yn aelodau o sefydliadau oedd â buddiant yn yr ymgynghoriad hwn neu'n gysylltiedig â hwy. Dangosodd dadansoddiad fod 584 o ymatebion a oedd yn cynnwys testun rhydd yn union yr un fath â'r hyn a awgrymwyd gan ymgyrchoedd gan

o leiaf dau sefydliad. Cwblhaodd 98% o ymatebwyr y cwestiwn trigfan gyda phreswylwyr o 38 o wledydd yn ymateb. Roedd 31% o ymatebwyr yn byw yng Nghymru, 60% mewn rhan arall o'r DU a 7% mewn mannau eraill.

10. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwrdd â sawl parti â diddordeb yn ystod yr adolygiad. Yn ystod y cyfnod galw am dystiolaeth, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain a'r Gynghrair Cefn Gwlad i esbonio diben yr adolygiad a'r alwad am dystiolaeth. Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus, gwnaeth cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru gwrdd ag Animal Aid, y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon ac unigolyn â diddordeb i drafod y dystiolaeth wedi'i chyfuno, y cynigion a gyflwynwyd yn nogfen yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r camau nesaf ar gyfer dadansoddi'r ymatebion o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

11. Yn ystod cyfnod yr adolygiad, cafwyd nifer bach o wrthdystiadau yn swyddfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru yng Nghaerdydd ac Aberystwyth a'r Senedd, lle dosbarthwyd taflenni o'r ymgyrch 'Stopiwch saethu ar dir cyhoeddus Cymru[2] '. Mae'r taflenni hyn hefyd wedi ymddangos mewn cerbydau ceffylau Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r ymgyrch hon wedi darparu nodyn briffio i Aelodau'r Cynulliad. Ym mis Awst 2017, gwnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru dderbyn deiseb gydag oddeutu 70 o lofnodion yn galw am Cyfoeth Naturiol Cymru i atal prydlesi ar gyfer saethu adar hela. Gwnaeth Animal Aid, y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon a 'Stopiwch saethu ar dir cyhoeddus Cymru' gyflwyno deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ebrill 2018. Gwnaethant ddosbarthu llythyr i Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydnabod cyflwyno'r 12,700 o lofnodion gerbron Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ymgymerodd y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon â phleidlais YouGov[3] ar saethu adar hela ym mis Ebrill 2018 a oedd yn gofyn cyfres o gwestiynau ynghylch saethu adar er chwaraeon i 1,006 o ymatebwyr o Gymru oedd yn oedolion.

12. Amcangyfrifir mai ymdrech y staff dros gyfnod yr adolygiad oedd 2,000 o oriau. Mae'r adolygiad wedi ymchwilio i un gŵyn ffurfiol ac wedi derbyn un gymeradwyaeth am ei waith hyd yn hyn. Mae hefyd wedi mynd i'r afael â sawl cais mynediad at wybodaeth a thros 200 o ymholiadau ychwanegol drwy ohebiaeth a thros y ffôn.

## Argymhellion

13. Yn seiliedig ar gamau'r adolygiad a gwblhawyd, cyflwynir pedwar argymhelliad ar sail tystiolaeth gerbron y bwrdd, wedi'u dilyn gan grynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad cyhoeddus, y rhesymeg, a'r amodau awgrymedig sy'n gysylltiedig â phob argymhelliad. Mae'r argymhellion hyn yr un peth â'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad sefyllfa drafft wedi'i atodi yn **Atodiad 5**.

**Argymhelliad 1: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n defnyddio arfau tanio wrth reoli effeithiau negyddol rhywogaethau gwyllt ar y tir mae'n ei reoli i gyflawni rheoli**

[2] Ymgyrch yw 'Stopiwch saethu ar dir cyhoeddus Cymru' a gynhelir gan y sefydliad hawliau anifeiliaid Animal Aid. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ei wefan yn https://www.animalaid.org.uk/nrw/, gan gynnwys y nodyn briffio i Aelodau'r Cynulliad.

[3] Gwnaeth y Gynghrair yn erbyn Chwaraeon Creulon gomisiynu pleidlais YouGov a gallwch weld y canlyniadau yn https://d25d2506sfb94s.cloudfront.net/cumulus_uploads/document/1qaemiv24u/YG-Archive-230418-League%20AgainstCruelSports.pdf

**adnoddau naturiol yn gynaliadwy sy'n gyson â'n hamcanion rheoli tir a'n diben.**

14. **Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus:** Gofynnodd Cwestiwn 1 yr ymgynghoriad cyhoeddus: A ydych chi'n cytuno y dylai defnyddio arfau tanio barhau i fod yn opsiwn sydd ar gael i Cyfoeth Naturiol Cymru wrth reoli effeithiau negyddol rhywogaethau gwyllt ar y tir mae'n ei reoli i gyflawni rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

    Dyma oedd y canlyniadau:

    | | | | | |
    |---|---|---|---|---|
    | Yn gyffredinol | Ydw | 27% | Nac ydw | 73% |
    | Trigolion Cymru | Ydw | 43% | Nac ydw | 57% |

    O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd 'nac ydw', yr angen am ddulliau gwahanol mwy trugarog oedd y rheswm mwyaf cyffredinol, wedi'i ddilyn gan foeseg rheolaeth farwol o rywogaethau gwyllt. Dywedodd llawer o bobl fod yr holl rywogaethau gwyllt yn werthfawr ni waeth a ydynt yn oresgynnol ai peidio â bod ymyrraeth gan ddyn yn arwain at effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth. Gwnaeth llawer o'r ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' gwestiynu'r angen am ymyrraeth a chwestiynu'r dystiolaeth o effaith negyddol sylweddol ar amcanion rheoli tir. O'r rhai a ymatebodd 'ydw', roedd y sylwadau'n bennaf yn ymwneud â diffyg dewisiadau amgen hyfyw ar gyfer rheoli poblogaethau i gyfyngu ar niwed i weithgarwch economaidd ac effeithiau negyddol ar amcanion rheoli tir.

15. Sail resymegol: Mae rheoli effeithiau negyddol rhywogaethau gwyllt ar dir rydym yn ei reoli, gan gynnwys drwy reolaeth farwol, yn gyson â chyflawni diben Cyfoeth Naturiol Cymru ac egwyddorion ac amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac yn hanfodol i’r gwaith hwn, ac yn cefnogi’r gwaith o gyflawni’r nodau llesiant. Mae angen i effeithiau ar goed sydd newydd gael eu plannu, cyflwr a gwydnwch cyffredinol coetiroedd, a chadwraeth rhywogaethau ar draws cynefinoedd gwahanol gael eu rheoli gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys rheolaeth farwol. Nid oes cyfuniad o ddulliau amgen boddhaol i'r defnydd o arfau tanio sy'n bodloni ein nodau rheoli tir neu sy'n diogelu gwerth yr asedau rydym yn eu rheoli yn y tymor byr neu hir.

16. **Amodau:** Wrth ystyried defnyddio rheolaeth farwol, caiff tystiolaeth o effeithiau sy'n cyfiawnhau'r rheolaeth, llesiant anifeiliaid a chamau gweithredu gwahanol posib neu ategol ei hasesu bob tro cyn gwneud y penderfyniad i ddefnyddio arfau tanio a bydd gwaith monitro i asesu'r angen parhaus. Defnyddir yr *Egwyddorion Rhyngwladol Cyffredin ar gyfer Rheoli Bywyd Gwyllt yn Foesegol*[4] i benderfynu ar yr angen am reolaeth farwol, fel a nodir yn **Atodiad 4**.

**Argymhelliad 2: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i ystyried ceisiadau am ganiatâd i reoli rhywogaethau gwyllt gan ddefnyddio arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli.**

17. **Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus**: Gofynnodd Cwestiwn 2 yr ymgynghoriad cyhoeddus: A ydych yn cytuno y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i ystyried

[4] Dubois ac eraill (2017), *International consensus principles for ethical wildlife control*. Conservation Biology. doi:10.1111/cobi.12896 https://onlinelibrary.wiley.com/doi/full/10.1111/cobi.12896

ceisiadau am ganiatâd i reoli rhywogaethau gwyllt gan ddefnyddio arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli?

Dyma oedd y canlyniadau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn gyffredinol | | Ydw | 26% | Nac ydw | 74% |
| Preswylwyr Cymru | Ydw | 41% | | Nac ydw | 59% |

O'r ymatebwyr a atebodd 'nac ydw' i'r cwestiwn hwn, cyfiawnhad economaidd am gynnal rheolaeth gan ddefnyddio arfau tanio oedd y sylw mwyaf cyffredin, gan gwestiynu'r dystiolaeth ac arwyddocâd yr effaith negyddol ar fywoliaeth ffermwyr. Roedd gan nifer uchel o ymatebwyr bryderon ynghylch cydymffurfio â deddfwriaeth ac amodau caniatâd ynghyd ag ymddygiad y rhai a oedd yn cynnal y rheolaeth a rhoi cyfyngiadau ar fynediad cyhoeddus. Roedd ymatebion hefyd yn cwestiynu'n uniongyrchol effeithiolrwydd rheoli llwynogod ar oroesiad ŵyn gyda thystiolaeth yn awgrymu efallai bod ffactorau eraill yn cael effaith fwy. I'r gwrthwyneb, roedd perchnogion tir a chynrychiolwyr perchnogion tir yn teimlo'n gryf fod rheoli llwynogod yn bwysig i osgoi colledion ŵyn difrifol ac i ddiogelu busnesau ffermio.

18. **Sail resymegol:** Mae ystyried ceisiadau am ganiatâd i reoli rhywogaethau gwyllt gan ddefnyddio arfau tanio ar y tir rydym yn ei reoli yn gyson â Deddf Hela 2014 ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n ymrwymedig i ystyried ceisiadau ar gyfer y gweithgaredd hwn gan ei gymdogion. Nodwyd mai ysglyfaethu yw prif achos wrth leihau llwyddiant bridio ar gyfer llawer o adar sy'n nythu ar y ddaear ac y byddent yn elwa o bosib o gamau rheoli llwynogod mewn coedwigoedd cyfagos. Awgryma dystiolaeth fod defnyddio arfau tanio dan yr amgylchiadau hyn yn gyson â diben Cyfoeth Naturiol Cymru ac egwyddorion ac amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac y bydd hefyd yn cefnogi cyflawni nodau llesiant ar y tir y mae eraill yn berchen arno ac yn ei reoli.

19. **Amodau:** Mae'n rhaid i geisiadau ddarparu cyfiawnhad clir mai diben y gweithgaredd yw atal neu leihau difrod difrifol y byddai'r anifail gwyllt yn ei beri fel arall. Gallai peidio â chydymffurfio â deddfwriaeth neu delerau'r caniatâd olygu tynnu'r caniatâd yn ôl a/neu beidio â'i adnewyddu. Defnyddir yr Egwyddorion Rhyngwladol Cyffredin4 ar gyfer Rheoli Bywyd Gwyllt yn Foesegol i lywio ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru i geisiadau mewn ffordd debyg i **Atodiad 4**.

**Argymhelliad 3: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i ystyried prydlesu hawliau at ddibenion saethu ffesantod, hela adar a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys arfau tanio fesul achos.**

20. **Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus:** Gofynnodd Cwestiwn 3 o'r ymgynghoriad cyhoeddus: A ydych yn cytuno y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i ystyried prydlesu tir at ddibenion saethu ffesantod, hela adar a gweithgareddau eraill sy'n cynnwys arfau tanio lle nad yw'n effeithio'n negyddol ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

Dyma oedd y canlyniadau:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Yn gyffredinol | | Ydw | 24% | Nac ydw | 76% |
| Preswylwyr Cymru | Ydw | 37% | | Nac ydw | 63% |

O'r rhai a ymatebodd 'nac ydw', y rhesymau mwyaf cyffredinol oedd yr effaith negyddol ar fioamrywiaeth frodorol megis nifer y ffesantod a ryddheir yn wyllt, cystadleuaeth am fwyd, ac effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau brodorol. Cwestiynwyd cydymffurfiaeth â safonau llesiant anifeiliaid yn aml ynghyd â moeseg hela adar. O'r rhai a ymatebodd 'ydw', y manteision ar gyfer cadwraeth cynefinoedd a diogelu rhywogaethau prin drwy weithgareddau ychwanegol megis rheoli ysglyfaethwyr rhywogaethau o bryder cadwraeth a gwella cynefinoedd ar gyfer bioamrywiaeth frodorol oedd y rhesymau a nodwyd fwyaf.

21. **Sail resymegol:** Mae gan y gweithgareddau sy'n ymwneud â saethu gan drydydd partïon (adar hela, saethu garw a hela adar) ar dir rydym yn ei reoli'r potensial i gyfrannu'n gadarnhaol at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a llesiant, megis menter wledig, swyddi, rheoli cynefinoedd ychwanegol a chydlyniant cymunedol. Caiff unrhyw weithgarwch ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru ei archwilio'n annibynnol i gynnal ardystiad coedwigaeth ac felly mae modd ei ystyried yn gyson â diben Cyfoeth Naturiol Cymru. O'r dystiolaeth, casglwn y gall cynigion ond gael eu hasesu fesul safle i alluogi asesiad trylwyr o'r cynnig, yr amgylchiadau a'r materion. Mae'n rhaid i gryfder y teimladau ar foeseg gweithgareddau o'r fath a'r pryderon cryf ynghylch llesiant yr anifeiliaid dan sylw gael eu cydbwyso â'r gred ddwys gan eraill fod hyn yn ffurfio rhan bwysig o ddiwylliant Cymru.

22. **Amodau:**

- **Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru** yn hyrwyddo'r math hwn o weithgaredd fel menter fasnachol ond bydd yn parhau i ystyried cynigion lle gall costau gael eu hadennill.
- **Wrth ystyried cynigion**, dylai effeithiau lleol y gweithgaredd ar reoli adnoddau yn gynaliadwy a'r nodau llesiant gael eu hasesu. Dylai lleoliad a graddfa'r gweithgaredd ystyried y potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar ecosystemau a rhywogaethau fflora a ffawna lleol, ond hefyd agweddau cymdeithasol buddiol cydlyniad cymunedol lleol a'r buddion economaidd posibl. Dylai cynlluniau rheoli gael eu datblygu a'u rhoi ar waith, a dylai fod yn ofynnol i ddeiliaid prydlesi ddangos eu bod yn glynu wrth godau ymarfer perthnasol.[5] Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i asesu cydymffurfiaeth gweithgareddau a ganiateir â Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig. Caiff yr ymagwedd a nodir yng Nghynllun Menter Cyfoeth Naturiol Cymru[6] ei defnyddio i asesu cynigion.
- **Costau.** Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru adennill costau sy'n gysylltiedig ag asesu cynigion a rheoli prydlesi fesul achos. Ar hyn o bryd, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n adennill y gost i ystyried cynigion a monitro cydymffurfiaeth o fewn y cynllun codi tâl presennol. Dyma yw'r achos yn benodol ar gyfer hela adar lle mae angen Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd arbenigol.
- **Llesiant anifeiliaid.** Saif y baich profi cydymffurfiaeth o ran safonau llesiant anifeiliaid drwy'r gadwyn gyflenwi gyda'r trydydd parti. Dylai'r ymgeisydd fynd i'r afael â'r potensial am faterion llesiant anifeiliaid negyddol sy'n gysylltiedig â'r broses fridio a magu ynghyd â gwiriadau cydymffurfio â’r awdurdodau perthnasol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn

---

[5] Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru er Lles Adar Hela a Fegir at Ddibenion Helwriaeth (2010), sydd ar gael o http://gov.wales/docs/legislation/inforcenonsi/animalwelfare/110106gamebirdcy.pdf
Mae codau arfer da'r diwydiant yn cynnwys y canlynol: Cod Arfer Da ar gyfer Hela Adar Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain, sydd ar gael o https://basc.org.uk/cop/wildfowling, a Chod Arfer Saethu Da ar y cyd sydd ar gael o http://www.codeofgoodshootingpractice.org.uk/pdf/cogsp2017.pdf

[6] Cynllun Menter Cyfoeth Naturiol Cymru 2017–2022 yn cymhwyso egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i weithgareddau, sydd ar gael o https://naturalresources.wales/media/683213/atodiad1-gweithredu-egwyddorion-smnr-i-cynllun-menter-hydref-2017-terfynol.pdf

monitro lles anifeiliaid ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru drwy broses brydlesu a rheoli cynlluniau.

- **Saethu ffesantod ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru**. Ar hyn o bryd, mae saethu ffesantod ond yn digwydd ar dir agored gyferbyn â choetir. Mae prydlesi presennol yn caniatáu mynediad i saethwyr i symud adar o'u gorchudd gyda pheth corlannu a bwydo adar mewn coetir a rhai gweithgareddau rheoli cynefinoedd ac ysglyfaethwyr cysylltiedig. Ar gyfer prydlesi presennol, ni fydd mwy o gorlannau magu neu gewyll rhyddhau'n cael eu cyflwyno ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru. Ni chaiff cynigion yn y dyfodol eu hystyried ond am fynediad i goetir yn ein gofal sydd yn gyfagos â phrif weithgaredd menter ar dir cyfagos.
- Mae gofyn am ystyriaeth glir am **weithgareddau (anfarwol) eraill**, megis saethu colomennod clai neu feysydd tanio, o ran effaith negyddol ar amcanion rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar fynediad cyhoeddus i dir yn ein gofal.

**Argymhelliad 4: Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n parhau i ddefnyddio bwledi plwm ond bydd yn parhau i adolygu effeithiolrwydd y dewisiadau gwahanol.**

23. Defnyddio plwm - yn gyffredin i'r holl argymhellion. Nid oedd hwn yn gwestiwn yn yr ymgynghoriad cyhoeddus ond yn fater a godwyd gan sawl ymatebwr yn y sylwadau testun rhydd ac ymatebion pedwar o'r sefydliadau. Rhoddwyd ystyriaeth gytbwys i ddefnyddio bwledi plwm fel rhan o'r adolygiad gyda materion amgylcheddol, iechyd a llesiant negyddol yn cael eu hystyried. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth y DU a DEFRA wedi penderfynu nad oedd y dystiolaeth a ddarparwyd gan y Grŵp Ymgynghorol Arweiniol yn cyfiawnhau newid mewn deddfwriaeth ar fwledi plwm. Mae'r defnydd o fwledi plwm wedi'i wahardd mewn cynefinoedd sensitif a bydd hwn yn parhau i gael ei orfodi dan yr amgylchiadau hynny. Nid yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu ehangu na newid cyfyngiadau presennol.

24. Nid yw treialon opsiynau gwahanol i beledi plwm gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru wedi darparu safonau argyhoeddiadol o lesiant anifeiliaid o ran lladd anifeiliaid yn gyflym. Mewn cyferbyniad, mae trafodaethau gyda Forest Enterprise England yn nodi nad ydynt yn profi problemau gyda'r defnydd o opsiynau gwahanol i fwledi plwm. Mae rheolwyr yr Ystad Coedwig Gyhoeddus yn yr Alban yn defnyddio beledi plwm ac opsiynau nad ydynt yn cynnwys plwm wrth reoli ceirw ar yr Ystad Coedwig Gyhoeddus. Oherwydd pryderon tebyg i rai defnyddwyr arfau tanio proffesiynol yn Cyfoeth Naturiol Cymru, maent yn dal i archwilio'r opsiynau gorau i bob sefyllfa.

25. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n cadw llygad ar opsiynau gwahanol i fwledi plwm drwy ymgysylltu â staff gweithredol yr Ystad Coedwig Gyhoeddus yn yr Alban a Lloegr. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fyddai'r newid posib mewn deddfwriaeth neu bolisi o ran hyn.

## <u>Risgiau allweddol</u>

26.

| **Risg** | **Mesur lliniaru** |
|---|---|
| Os nad ydym yn dangos yn glir i sefydliadau â diddordeb yn yr adolygiad ein bod wedi bod yn | • Rydym wedi gweithio gyda rhanddeiliaid drwy gydol yr adolygiad ac rydym wedi bod yn dryloyw |

| | |
|---|---|
| gytbwys wrth reoli'r dystiolaeth (gan gynnwys o ran yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus), yna bydd risg na fydd yr adolygiad a'r datganiad sefyllfa'n cael eu derbyn yn eang, gan olygu effeithiau negyddol ar gyfer ein henw da. | ynghylch cwmpas a chylch gorchwyl yr adolygiad a'n dull a'n proses.<br>• Gwnaethom benodi aseswyr annibynnol allanol i adolygu ein dull ar gyfer y prosiect a'n dadansoddiad o dystiolaeth a gwnaethant adrodd mewn modd cadarnhaol am ein gwaith. |
| Os na cheir unrhyw gynnydd ar gydymffurfiaeth llesiant anifeiliaid ar draws y gadwyn gyflenwi ar gyfer adar hela, yna ceir risg na fydd y materion a godwyd gan y cyhoedd yn ystod ein hymgynghoriad yn derbyn sylw, gyda chanlyniadau o ran enw da sefydliadau sy'n cefnogi saethu, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru. | • Rydym wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am gynnydd ein hadolygiad a'i argymhellion.<br>• Rydym wedi tynnu sylw Llywodraeth Cymru at ganlyniadau ein hymgynghoriad cyhoeddus, gan gynnwys pryderon mawr rhai o'r rheiny a wnaeth ymateb a'r dystiolaeth a rennir gan y sefydliadau llesiant anifeiliaid. |
| Os na cheir unrhyw gynnydd o ran datblygu opsiynau boddhaol nad ydynt yn cynnwys plwm ar gyfer peledi a bwledi, yna ceir risg o effeithiau negyddol ar yr amgylchedd, i iechyd dynol, i ddiogelwch gweithredwyr a llesiant anifeiliaid gyda chanlyniadau i'r gymdeithas, yr amgylchedd ac enw da rheolwyr tir. | • Rydym yn parhau i gydweithio gyda rheolwyr yr Ystad Coedwig Gyhoeddus yng ngweddill y DU, i fuddsoddi mewn ymchwil a threialau gweithrediadol o opsiynau gwahanol.<br>• Bydd yn rhaid i ddeiliaid prydlesi a deiliaid caniatâd ddefnyddio opsiynau nad ydynt yn cynnwys plwm unwaith yr aed i'r afael â phryderon llesiant anifeiliaid ac iechyd a diogelwch. |
| Os nad ydym yn parhau i reoli rhywogaethau megis ceirw, yna bydd risg y bydd gwerth yr asedau rydym yn eu rheoli'n gostwng ac y byddant yn dod yn anghynaladwy gyda chanlyniadau ar gyfer cyflawni yn erbyn ein diben, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a manteision llesiant ar gyfer pobl Cymru. | • Mae tystiolaeth gymhellol, polisïau a deddfwriaeth o blaid parhau i reoli rhywogaethau gwyllt sy'n cael effaith negyddol ar ein hamcanion rheoli tir. |
| Os nad ydym yn parhau i ystyried ceisiadau gan eraill i reoli rhywogaethau megis llwynogod ar y tir rydym yn ei reoli, yna ceir risg y byddwn yn torri ein rhwymedigaethau cyfreithiol ac ein rhwymedigaethau fel cymydog da gyda chanlyniadau ar gyfer ein henw da a'r economi. | • Byddwn yn parhau i asesu ceisiadau am ganiatâd i gynnal gwaith rheoli sy'n gyson â Deddf Hela 2004 ac ystyried y rheiny lle mae modd dangos effaith glir ar fusnesau ffermio. |
| Os nad ydym yn parhau i gynnig prydlesi helwriaeth sy'n gyson ag amodau rheoli ein tir prydles, yna ceir risg y bydd ein rheolaeth o safleoedd o'r | • Prif syrfëwr i adolygu amodau'r tir prydles sy'n ymwneud â gweithgareddau hela adar ar dir rydym yn ei reoli i benderfynu a |

| | |
|---|---|
| fath yn peidio gyda chanlyniadau ar gyfer ein henw da a'r amgylchedd. | fyddai atal y gweithgaredd hwn yn torri ein rhwymedigaethau cyfreithiol. |
| Os nad oes modd i ni adennill ein costau ar gyfer ystyried cynigion sy'n cynnwys arfau tanio ar gyfer gweithgareddau megis saethu adar hela, yna ceir risg y byddwn yn atal cynnig y cyfle i gynnal gweithgareddau o'r fath ar y tir rydym yn ei reoli gyda chanlyniadau ar gyfer ein henw da. | • Y prif syrfëwr i archwilio ac ail-drafod yr holl brydlesi presennol a pherthnasol, gan anelu at adennill cyfanswm y costau, i hwyluso gweithgareddau o'r fath neu atal y gweithgaredd os nad oes modd trafod adennill y costau. |

**Goblygiadau ariannol**

27. Ar hyn o bryd, mae bwledi nad ydynt yn cynnwys plwm yn ddrutach ond nid yn ormodol. Dylai costau gwiriadau cydymffurfio ar drwyddedau a phrydlesi gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru gael eu talu gan y deiliaid trwyddedau a phrydleswyr drwy adennill costau llawn drwy drafod trwydded neu brydles newydd neu wedi'i hadnewyddu. Yn gyson â'r dystiolaeth o'r adolygiad ac egwyddorion ein Cynllun Menter (2017–22), ni fyddwn bellach yn ceisio tarddu incwm masnachol o weithgareddau sy'n defnyddio arfau tanio ac felly bydd potensial cysylltiedig llai am ffrwd incwm ychwanegol ar gyfer ein gweithgareddau rheoli tir.

**Asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb**

28. Mae ymarfer sgrinio (**Atodiad 6**) wedi cael ei gwblhau a daeth i’r casgliad, oherwydd nad yw ein hargymhellion yn newid gwasanaeth rydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd yn sylweddol (ac os caiff ein hargymhellion eu derbyn), nid oes angen asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb.

**Mynegai o atodiadau**

Atodiad 1: Crynodeb o'r amserlen ar gyfer yr adolygiad a phroses

Atodiad 2: Crynodeb gweithredol o’r dystiolaeth wedi’i chyfuno

Atodiad 3: Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad cyhoeddus

Atodiad 4: Defnyddio'r Egwyddorion Rhyngwladol Cyffredin ar gyfer Rheoli Bywyd Gwyllt yn Foesegol i reoli ceirw ar y tir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodiad 5: Datganiad sefyllfa drafft ar ddefnyddio arfau tanio ar dir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodiad 6: Ymarfer sgrinio ar gyfer asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Tîm Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Dydd Gwener, 22 Mehefin 2018